GENERAL TEACHING COUNCIL FOR WALES
CYNGOR ADDYSGU CYFFREDINOL CYMRU

COFNODION PEDWERYDD CYFARFOD AR DDEG AR HUGAIN CYNGOR ADDYSGU CYFFREDINOL CYMRU

DYDDIAD: 6ED CHWEFROR 2009

LLEOLIAD: CANOLFAN ADDYSG A CHYNADLEDDAU THE HILL, Y FENNI

Yn bresennol:
Aelodau:

Mal Davies (Cadeirydd)	Sheila Drayton
Jacquie Turnbull (Dirprwy Gadeirydd)	Angela Jardine
Tim Cox	Gareth Jones
Beth Davies	Jane Morris
Elwyn Davies	Sue O'Halloran
Susan Davies	Hugh Pattrick
Roberto De Benedictis	Cleo Sollars

Ymddiheuriadau:

Phil Bassett	Anne Robertson
Frank Bonello	Jane Setchfield
Mike Edwards	Anna Spokes
Ian Guy	Sarah Stockford
Hélène Mansfield	Jacky Tonge
Suzanne Nantcurvis	

Swyddogion:

Gary Brace	Prif Weithredwr
Hayden Llewellyn	Dirprwy Brif Weithredwr (Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol)
Julia Evans	Dirprwy Brif Weithredwr (Cyllid, Personél a Gwasanaethau Corfforaethol)
Karen Evans	Rheolwr Polisi a Chynllunio
Jo Read	Ysgrifenyddes y Cyngor
Joy Austin	Cynorthwyydd Gweithredol i'r Prif Weithredwr

1. Croeso a Materion Rhagarweiniol

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i bedwerydd cyfarfod ar ddeg ar hugain y Cyngor.

1.2 Cafwyd nifer o ymddiheuriadau oherwydd y tywydd garw. Cafwyd ymddiheuriadau gan Phil Bassett, Frank Bonello, Mike Edwards, Ian Guy, Hélène Mansfield, Suzanne Nantcurvis, Anne Robertson, Jane Setchfield, Anna Spokes, Sarah Stockford a Jacky Tonge.

1.3 Croesawodd y Cadeirydd Tony Finn (Prif Weithredwr, Cyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban) oedd yn mynychu'r cyfarfod i arsylwi.

1.4 Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau y câi'r cyfarfod ei gynnal yn ddwyieithog. Estynnwyd croeso i'r bobl a oedd yn arsylwi o'r oriel gyhoeddus.

1.5 Cynigiodd y Cadeirydd drafod eitem agenda breifat 25 "*Sefyllfa ariannol barhaus"* yn gyhoeddus fel y papur cyntaf gan fod ganddi gysylltiad agos â'r materion yr oedd angen eu hystyried fel rhan o eitem agenda 10 "*Cynlluniau ar gyfer Cynllun Corfforaethol a Gweithredol 2009-10".* Cytunodd yr aelodau â'r cynnig.

2. Datganiadau o ddiddordeb

2.1 Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

3. Gohebiaeth y Cadeirydd

3.1 Nid oedd unrhyw eitemau o dan Ohebiaeth y Cadeirydd i'w dwyn i sylw'r aelodau.

4. Cofnodion Drafft Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 22ain Hydref 2008

4.1 Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod yn gofnod cywir.

Materion yn codi:

4.2 Cofnod 15: Darlith Flynyddol 2008: Tynnodd y Cadeirydd sylw at lwyddiant Darlith Addysg Cymru a draddodwyd gan y Farwnes Shirley Williams ar 10fed Tachwedd 2008.

4.3 Nid oedd unrhyw faterion eraill yn codi.

5. Derbyn hysbysiad am unrhyw faterion y dymuna aelodau eu codi mewn perthynas â'r Eitemau a nodir ar yr Agenda 'Er Gwybodaeth' (16 i 23)

5.1 Ni hysbyswyd unrhyw eitemau.

6. Cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Polisi 3ydd Rhagfyr 2008.

6.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr y cofnodion hyn a dywedodd wrth yr aelodau y byddai pob mater, ond un, yn cael sylw yn agenda'r cyfarfod.

Materion yn codi:

6.2 Cofnod 7.2: Ymgynghoriad ar Feta-safonau drafft LLUK i athrawon ym maes addysg ôl-orfodol: Dywedodd y Prif Weithredwr wrth yr aelodau fod LLUK wedi ymgynghori ar set o Feta-safonau cyffredinol oedd yn berthnasol i athrawon yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Dywedodd wrth yr aelodau fod y Cyngor wedi cyflwyno ymateb a oedd yn ategu ei safbwynt i ymgynghoriad blaenorol LLUK ym mis Ionawr 2008. Mae cydnabyddiaeth wedi cael ei derbyn.

6.3 Nid oedd unrhyw faterion eraill yn codi.

6.4 Nodwyd y cofnodion oedd heb eu cadarnhau.

7. Cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Chraffu 3ydd Rhagfyr 2008

7.1 Sheila Drayton, Cadeirydd y Pwyllgor, a gyflwynodd y cofnodion hyn, gan dynnu sylw at nifer o bwyntiau.

Materion yn codi:

7.2 Cofnod 1.1: Aelod cyfetholedig: Tynnwyd sylw'r aelodau at y cyfarfod cyntaf i'r aelod oedd newydd ei gyfethol, Paul Griffiths.

7.3 Cofnod 3: Adroddiad Cryno, Llythyr Rheoli ac Adroddiad Ardystio Grantiau Swyddfa Archwilio Cymru: Tynnodd Cadeirydd y Pwyllgor sylw at adroddiad yr archwilydd allanol a nododd fod datganiadau ariannol y Cyngor yn rhoi darlun teg a chywir a'u bod wedi'u paratoi'n gywir, ac nad oedd unrhyw wendidau sylweddol yn y systemau ariannol. Roedd pedwar argymhelliad wedi cael eu codi ac wedi cael sylw. Mewn perthynas â'r adroddiad ardystio grantiau, cadarnhawyd bod costau wedi'u dyrannu a'u dosrannu'n gywir i weithgareddau a ariennir gan y Cynulliad.

7.4 Cofnod 4: Adroddiadau Archwilio Mewnol: Dywedwyd wrth yr aelodau fod yr adroddiadau archwilio mewnol yn dda ac yn rhoi sicrwydd priodol i'r Cyngor.

7.5 Cofnod 8: Adolygiad Chwarterol, Gorffennaf i Fedi 2008: Roedd un aelod o'r Pwyllgor wedi awgrymu y gallai'r amcanion a geir yn yr Adolygiad Chwarterol fod yn 'CAMPPUB' ('SMARTER'). Roedd y swyddogion wedi gweithredu ar hyn mewn perthynas â'r Cynllun Gweithredol drafft sydd i gael ei ystyried yn ddiweddarach ar yr agenda.

7.6 Cofnod 9: Adroddiad ar ymarferiad hunanasesu'r Cyngor a'r Pwyllgor: Tynnodd Cadeirydd y Pwyllgor sylw at y gyfradd ymatebion cadarnhaol a pha mor debyg oedd ymatebion yr aelodau, gyda'r mwyafrif helaeth naill ai'n 'fodlon' neu'n 'fodlon iawn' ar weithrediadau'r Cyngor. Roedd yr ymarfer wedi tynnu sylw at nifer fach o faterion i'w hystyried, sef: yr angen posibl i ddatblygu hyfforddiant sefydlu i aelodau newydd o'r Cyngor ynglŷn â gweithio ar bwyllgorau ffurfiol; ystyried cael pedwerydd cyfarfod yn y flwyddyn galendr i'r Pwyllgor Archwilio a Chraffu, a gwneud adolygiad o gylchoedd gwaith y Pwyllgorau. Dywedwyd wrth yr aelodau y byddai'r Pwyllgor Archwilio a Chraffu'n gwneud yr adolygiad o *Gylchoedd Gorchwyl* a chylchoedd gwaith y Pwyllgorau Sefydlog a châi unrhyw argymhellion eu cyfeirio at y Pwyllgor Gwaith.

7.7 Nid oedd unrhyw faterion eraill yn codi.

7.8 Nodwyd y cofnodion oedd heb eu cadarnhau.

8. Cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Cofrestru 5ed Rhagfyr 2008

8.1 Cyflwynodd Hugh Pattrick y cofnodion hyn yn fyr i'r Cyngor, gan esbonio mai ychydig iawn o bobl oedd yn y cyfarfod ac na fu'n bosibl ymdrin â'r holl eitemau ar yr agenda yn yr amser oedd ar gael. Aeth ymlaen i dynnu sylw at nifer o bwyntiau o'r cofnodion, sef y trafodaethau ynglŷn â diwygio *Gweithdrefnau a Rheolau Safonau Proffesiynol* y Cyngor a'r *Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol*.

Materion yn codi:

8.2 Gofynnodd un aelod o'r Pwyllgor Cofrestru a oedd cworwm yn y cyfarfod. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod yna gworwm.

8.3 Nid oedd unrhyw faterion eraill yn codi.

8.4 Nodwyd y cofnodion oedd heb eu cadarnhau.

9. Cofnodion drafft y Pwyllgor Gwaith 5ed Rhagfyr 2008

9.1 Wrth gyflwyno'r cofnodion hyn, dywedodd y Prif Weithredwr wrth yr aelodau y byddai bron pob un o'r materion yn cael sylw ar agenda'r cyfarfod.

Materion yn codi:

9.2 Cofnod 7: Calendr cyfarfodydd 2009-10: Atgoffodd y Prif Weithredwr yr aelodau fod y calendr wedi cael ei ddosbarthu ar 8fed Rhagfyr 2008 a gofynnodd i'r aelodau nodi'r

dyddiadau. Byddai argymhellion ynglŷn â lleoliadau cyfarfodydd y Cyngor yn cael eu trafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod fel rhan o'r gwaith arbed costau.

9.3 Cofnod 9.6: Darlith Addysg Cymru 2009: Roedd y Pwyllgor Gwaith wedi cynnig rhestr fer o siaradwyr posibl ar gyfer y ddarlith eleni. Nid oedd y cyntaf, Syr Ken Robinson, ar gael, ond roedd Syr William Atkinson wedi cytuno i draddodi'r ddarlith eleni ac roedd y trefniadau mewn llaw.

9.4 Nid oedd unrhyw faterion eraill yn codi.

9.5 Nodwyd y cofnodion oedd heb eu cadarnhau.

10. Sefyllfa ariannol barhaus (GTCW 14/09)

10.1 Y Prif Weithredwr a gyflwynodd y papur hwn, a roddodd grynodeb o sefyllfa ariannol gyfredol y Cyngor. Roedd hon wedi cael ei chreu gan gynnydd yn y gwariant, a achoswyd yn bennaf gan y cynnydd yn nifer yr achosion safonau proffesiynol, ac a waethygwyd gan lefel benodedig yr incwm o ffioedd cofrestru hyd at fis Mawrth 2011. Roedd y papur yn nodi'r arbedion a wnaethpwyd hyd hynny yn 2008-09 ac a oedd wedi'u cynllunio ar gyfer y flwyddyn 2009-10.

10.2 Roedd incwm y Cyngor wedi cael ei bennu gan y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau am y tair blynedd yr oedd Cynllun Corfforaethol 2008-11 yn ymdrin â hwy. O ganlyniad, roedd Cynllun Corfforaethol 2009-12 yn rhagfynegi diffyg o £100,218 yn ystod y flwyddyn 2009-10 a diffyg yn ystod y flwyddyn 2010-11. Y pwyntiau allweddol a ddygwyd i sylw'r aelodau oedd bod angen arbedion o 6% yn 2009-10 ac 8% yn 2010-11 er mwyn mantoli'r cyfrifon. Dywedwyd bod arbedion o fwy na'r 2% yr oedd eu hangen wedi cael eu gwneud yn 2008-09 trwy beidio â chyflawni rhai gweithgareddau oedd wedi cael eu cynllunio, a byddai'r gwarged yn cael ei ddefnyddio i gryfhau'r gronfa wrth gefn gyffredinol.

10.3 Dywedwyd wrth yr aelodau fod yr arbedion o 6% ar gyfer y flwyddyn 2009-10 yn gyfwerth â rhyw £100,000. Roedd y swyddogion wedi nodi nifer o feysydd lle gellid arbed arian, i'r aelodau eu hystyried. Tynnodd y Prif Weithredwr sylw at bob cynnig yn ei dro. Y cynigion oedd: newidiadau i drefniadau cyhoeddi'r *Cynllun Corfforaethol,* y *Crynodeb Ystadegau* ac *Addysgu Cymru*; y gellid gohirio neu ddileu nifer o'r gweithgareddau a nodir yng *Nghynllun Gweithredol 2009-10*, ac y gellid gwneud trefniadau gwahanol ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor, yn enwedig o ran y lleoliadau. Roedd hefyd nifer o arbedion posibl ym maes gwaith safonau proffesiynol nad ydynt yn cael eu costio ar hyn o bryd, sy'n cynnwys newidiadau i gost contract y Swyddog Cyflwyno, ystyried proses addasrwydd un cam, a mwy o ddirprwyo penderfyniadau i'r swyddogion.

10.4 Byddai'r cynnig i roi'r *Cynllun Corfforaethol* a'r *Crynodeb Ystadegau* ar wefan CyngACC yn hytrach na'u hargraffu, ac i gyhoeddi dau rifyn o *Addysgu Cymru* yn hytrach na thri, yn arbed £39,700. Byddai gohirio amrywiaeth o'r gweithgareddau a nodwyd yng *Nghynllun Gweithredol 2009-10*, rhai ohonynt yn weithgareddau oedd wedi cael eu cymeradwyo cyn hynny yn 2008-09 a rhai ohonynt yn weithgareddau newydd yn y cynllun, yn arbed £61,400. Byddai'r argymhelliad y dylai cyfarfodydd yn y dyfodol fod ar batrwm tri yng Nghaerdydd ac un yn y Gogledd, ynghyd â gwahanol drefniadau ynglŷn â hysbysebu a chyfieithu ar y pryd, yn arbed £12,850.

10.5 Atgoffwyd yr aelodau nad oedd posibilrwydd mwyach i CyngACC berchen ar adeilad gan fod y cyfalaf wrth gefn a fyddai'n ofynnol fel blaendal ar gyfer morgais wedi cael ei erydu gan y cynnydd yn y gwaith achos safonau proffesiynol. Ni fyddai'r posibilrwydd o rentu lle mwy, er mwyn cynnal gwrandawiadau safonau proffesiynol yn fewnol, yn gost effeithiol ond os gallai'r Cyngor warantu y gellid gwneud iawn am gostau ychwanegol y rhent trwy ei osod i drydydd partïon pan nad oedd y Cyngor yn ei ddefnyddio. Byddai

recriwtio staff yn cael ei rewi dros dro ac ni fyddid yn ailbenodi pan fyddai staff yn ymddiswyddo neu ar absenoldeb hirdymor. Yr eithriadau i hyn fyddai lle mai'r unigolyn oedd yr unig swyddog yn y maes gwaith neu lle'r oedd yn aelod o dîm dau berson, neu lle cyflwynwyd achos eithriadol i'r Prif Weithredwr. Yn olaf, sicrhawyd yr aelodau y byddai trefniadau'n cael eu rhoi ar waith i arbed arian ar deithio, trwy wneud trefniadau'n gynnar, defnyddio cerdyn talu a manteisio ar gyfraddau rhyngrwyd.

10.6 Dywedodd un aelod ei bod yn bwysig i'r mater hwn gael ei drafod yn gyhoeddus ac, er nad y Cyngor ei hun oedd wedi creu'r sefyllfa yr oedd ynddi, byddai angen gwneud penderfyniadau anodd. Byddai'r Cyngor yn gwneud llai yn y tymor byr a dylid dwyn hyn i sylw'r Gweinidog.

10.7 Aeth yr aelodau ymlaen i drafod pob un o'r cynigion yn ei dro, gan nodi peryglon ac effeithiau negyddol pob un ar y Cyngor a'r proffesiwn addysgu yng Nghymru.

Cyhoeddiadau:

10.8 Bu'r aelodau'n ystyried a fyddai athrawon yn teimlo eu bod yn cael llai o wasanaeth gan y Cyngor wrth gael dau gopi o *Addysgu Cymru* yn hytrach na thri, yng ngoleuni'r ffi uwch. Gan nad oedd unrhyw werthusiad ffurfiol o *Addysgu Cymru* wedi cael ei wneud, roedd yn amhosibl dweud a fyddai'r newid yn effeithio'n andwyol ar athrawon yng Nghymru. Gellid rhoi mwy o gyhoeddusrwydd i wefan y Cyngor er mwyn tynnu sylw at y cyhoeddiadau a'r wybodaeth arall sydd ar gael. At ei gilydd roedd yr aelodau'n fodlon gyda'r cynnig ynglŷn ag *Addysgu Cymru.*

10.9 Roedd y *Crynodeb Ystadegau Blynyddol* yn uchel ei barch a gofynnodd yr aelodau am sicrwydd, pe bai ar gael ar wefan y Cyngor yn unig, y câi ymdrechion eu gwneud i dynnu sylw penodol ato.

Gweithgareddau'r Cynllun Gweithredol 2009-10:

10.10 Byddai'r rhain yn cael eu hystyried yn ystod yr eitem nesaf ar yr agenda.

Lleoliadau cyfarfodydd y Cyngor a'r trefniadau ategol:

10.11 Bu'r aelodau'n ystyried yr effaith mae cynnal dau gyfarfod yn y De a dau yn y Gogledd yn ei chael ar gostau. Gan fod mwyafrif helaeth yr aelodau a'r swyddogion yn byw yn y De, roedd y costau uchaf yn cael eu hachosi wrth i'r mwyafrif orfod teithio pellter sylweddol a chael llety dros nos. Ar ôl trafodaeth, dywedodd un aelod o'r Gogledd y byddai'n cefnogi'r cynnig i newid lleoliad cyfarfodydd y Cyngor yn y dyfodol er mwyn arbed costau.

10.12 Ynglŷn â threfniadau cyfieithu ar y pryd, roedd yr aelodau eisiau cadw'r rhain yng nghyfarfodydd y Cyngor. Cytunodd yr aelodau fod yr egwyddor o gynnal y Gymraeg yn bwysig a bod yr arbedion ariannol yn fach o'u cymharu â rhai eraill y gellid eu gwneud.

10.13 Dywedodd un aelod y byddai'r holl gynigion dan sylw'n achosi anfantais, naill ai i athrawon yng Nghymru, i'r aelodau neu i'r cyhoedd. Mynegodd ei barn nad oedd y Cyngor yn dymuno gwneud penderfyniadau o'r fath ond ei bod yn fater o raid. Cytunodd y Dirprwy Gadeirydd a dywedodd fod yna dyndra rhwng gwneud yr arbedion ariannol angenrheidiol a materion o egwyddor.

10.14 Gofynnodd un aelod am fwy o wybodaeth am y cynnig lleoliad a fuasai efallai ar gael trwy Lywodraeth Cynulliad Cymru. Gallai hwn fod yn gartref i swyddfeydd y Cyngor, cyfarfodydd y Cyngor a gwrandawiadau safonau proffesiynol. Dywedodd Julia Evans *(Dirprwy Brif Weithredwr, Cyllid, Personél a Gwasanaethau Corfforaethol)* nad oedd dim byd wedi dod o hyn. Awgrymodd y Prif Weithredwr y dylid crybwyll hyn wrth sôn wrth y Gweinidog am y Cynllun Gweithredol ac effeithiau'r arbedion.

Maes Safonau Proffesiynol:

10.15 Cafwyd trafodaeth fer ynglŷn ag ystyried recriwtio Swyddog Cyflwyno a chyngor cyfreithiol mewnol. Dywedodd un aelod y byddai hyn yn gofyn am lawer iawn o

ystyriaeth, er efallai y byddai yna fudd o alluogi swyddogion i ymdrin â rhai mathau penodol o achosion. Byddai'r swyddogion yn parhau i ymchwilio a chanfod beth fyddai'r costau.

10.16 Nododd y Prif Weithredwr yr awgrym a'r penderfyniadau a wnaethpwyd. Dirprwyodd yr aelodau'r penderfyniadau terfynol i'r Pwyllgor Gwaith a fyddai'n cyfarfod ar 10fed Mawrth 2009.

10.17 Ni chodwyd unrhyw faterion eraill.

11. Cynllun Corfforaethol Drafft 2009-12 a Chynllun Gweithredol Drafft 2009-10 (GTCW 01/09)

11.1 Yn gyntaf, diolchodd y Prif Weithredwr i Karen Evans (*Rheolwr Polisi a Chynllunio*) am ei gwaith ar ddatblygu'r cynlluniau. Rhoddodd y papur gyfle i'r aelodau ystyried Cynllun Corfforaethol drafft 2009-12 a Chynllun Gweithredol drafft 2009-10, rhoi awgrymiadau ynglŷn â'r gweithgareddau a nodir fel meysydd lle mae arbedion ariannol yn bosibl a rhai gweithgareddau newydd sydd ar y gweill ar gyfer y flwyddyn weithredol sydd ar ddod. Byddai'r Pwyllgor Gwaith yn penderfynu'n derfynol ar y ddau gynllun yn y cyfarfod ar 10fed Mawrth 2009.

Cynllun Corfforaethol Drafft 2009-12

11.2 Gan weithio trwy'r ddogfen fesul amcan, cynigiodd yr aelodau nifer o sylwadau, sef y dylai'r Cyngor ystyried canfyddiad y cyhoedd wrth benderfynu mynd i'r Eisteddfod Genedlaethol ai peidio, ac y byddai lleihau'r cysylltiad gyda siaradwyr Cymraeg, y mae llawer ohonynt yn y Gogledd, yn gam negyddol.

11.3 Cwestiynodd un aelod gostau cynnal Darlith Addysg Cymru flynyddol a chroesawu Cynhadledd Ryngwladol Cynghorau Addysgu ym mis Mehefin 2009. Dywedwyd bod y gwaith cynllunio a'r ymrwymiadau a wnaed i'r ITCC wedi mynd yn rhy bell. Hefyd dywedwyd bod nawdd gan y Brifysgol Agored wedi cael ei sicrhau i dalu costau. Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai'n cadarnhau costau'r ddau ddigwyddiad yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith.

Cynllun Gweithredol Drafft 2009-10

11.4 Ni chafwyd unrhyw sylwadau cyffredinol gan yr aelodau am y Cynllun Gweithredol drafft ac felly aethpwyd ymlaen i drafod y cynigion ar arbedion ariannol posibl.

Amcan 1:

11.5 Unwaith eto gweithiodd yr aelodau trwy'r ddogfen fesul amcan ac roedd y pwyntiau ar amcan 1 yn cynnwys: ystyried lefel y cymorth a roddir gan wasanaethau ymgynghori cysylltiadau cyhoeddus y Cyngor mewn gwrandawiadau safonau proffesiynol ac a ellir gwneud arbedion, a gohirio symud y gwaith achos safonau proffesiynol i MTL fel y bwriadwyd, gan arbed £50,000. Cydnabuwyd y byddai symud y gwaith yn darparu system fwy cadarn na'r system a ddefnyddir ar hyn o bryd. Hefyd croesawodd yr aelodau'r amcanion a'r canlyniadau 'CAMPPUB' ('SMARTER') oedd wedi cael eu cynnwys yn y cynllun.

11.6 Gofynnodd yr aelodau am i darged gael ei gynnwys yn Amcan 1.5 i nodi'r amserlen y byddai'r Cyngor yn ei disgwyl ar gyfer cwblhau un achos safonau proffesiynol. Er y cydnabuwyd bod pob achos yn unigryw ac y câi ei drin yn ôl ei deilyngdod, cytunodd yr aelodau ei bod yn bwysig gosod targed y gellid mesur ei berfformiad yn ei erbyn. Byddai hyn yn caniatáu i'r canlyniadau gael eu harchwilio ac, fel yr oedd yn briodol, yn darparu adroddiadau eithriad ar gyfer yr achosion a gwblhawyd y tu allan i'r targed.

11.7 Aeth yr aelodau ymlaen i drafod y bwriad i gyflwyno cynllun i gael adolygiad annibynnol o aelodau pwyllgorau safonau proffesiynol. Byddai'r cynllun yn galluogi'r Cyngor i adolygu canlyniadau achosion yn rheolaidd er mwyn sicrhau cysondeb ac

asesu anghenion hyfforddiant y bobl fyddai'n eistedd ar y paneli. Er y cydnabuwyd y byddai gohirio cyflwyno'r cynllun efallai'n achosi risg i'r Cyngor, cytunodd yr aelodau y dylid arbed y costau, sef £17,250 y flwyddyn. Aeth un aelod ymlaen i ofyn i Brif Weithredwr Cyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban, oedd yn arsylwi yn y cyfarfod, am y trefniadau oedd gan y Cyngor hwnnw. Dywedodd Tony Finn fod proses yn cael ei datblygu'n fewnol, ar sail Egwyddorion Nolan, yn dilyn ymgynghoriad a chyngor a gafwyd gan sefydliadau eraill.

Amcan 2:

11.8 Cytunwyd ar newid i'r testun:

- amcan 2.1 d – dileu 'build support for' a rhoi 'engage' yn ei le
- amcan 2.3 b – newid 'support' i 'inform'

11.9 Cynghorwyd y dylid gohirio comisiynu ymchwil a fyddai'n dylanwadu ar weithgareddau datblygu polisi'r Cyngor mewn perthynas â HAGA a Sefydlu ar gost o £10,000 (amcan 2.3 b). Cytunodd yr aelodau hefyd y dylai gwaith ar set o safonau cydlynus a blaengar ar draws y cerrig milltir proffesiynol er mwyn dylanwadu ar gyngor i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn y dyfodol, ar gost o £21,400 (amcan 3.1 c), gael ei ohirio'n amhenodol hefyd.

11.10 Dywedodd un aelod fod y ffordd yr oedd y canlyniadau tymor byr wedi'u nodi yn amcan 3.2 yn ei wneud yn anodd ei fonitro. Câi'r rhain eu symleiddio, gan ddefnyddio manylion o'r Llythyr Cynnig Grant a anfonwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Amcan 4:

11.11 Bu'r aelodau'n trafod mynd i'r Eisteddfod Genedlaethol yn y dyfodol, a fyddai'n costio £5,000 bob dwy flynedd. Daeth yr aelodau i'r casgliad y dylai'r Cyngor, wrth benderfynu mynd ai peidio, gadw mewn cof effaith gyffredinol pob penderfyniad sy'n ymwneud â dimensiwn y Gymraeg.

11.12 Nodwyd llwyddiant gwefan y Cyngor, oedd yn cael mwy na 8000 o ymweliadau bob mis.

Amcan 5:

11.13 Cytunwyd ar newid i'r testun:

- amcan 5.1 – cynnwys 'Council members and' cyn 'staff' er mwyn sicrhau eglurder

11.14 Dywedwyd wrth yr aelodau bod y Cyngor, trwy gadw strwythur cyflog a graddio cyfatebol i strwythur Llywodraeth Cynulliad Cymru yn hytrach nag un addas i sefydliad â 30 o staff, mewn perygl o beidio â gallu ariannu unrhyw godiadau cyflog sylweddol a allai gael eu dyfarnu yn dilyn trafodaethau rhwng y Cynulliad a'i undebau. Cyfrifwyd mai cost penodi contractwr i weithio gyda'r holl staff ac undebau llafur i gynghori ar strwythur cyflog a graddio pwrpasol i CyngACC fyddai £15,000. Rhoddodd y Cadeirydd ei farn bod y Cyngor yn llai tebygol o fod mewn perygl o orfod talu codiadau cyflog mawr yn yr hinsawdd ariannol bresennol. Cytunodd yr aelodau ac awgrymasant y gallai'r swyddogion o bosibl wneud rhywfaint o waith ymchwil heb dalu costau ymgynghorwyr. Cydnabuwyd y byddai angen arbenigedd annibynnol er mwyn creu strwythur newydd. Byddai'r swyddogion yn adrodd ar ddewisiadau eraill i'r Pwyllgor Gwaith.

11.15 Aeth yr aelodau ymlaen i gytuno y dylid gohirio gweithredu cyfleuster talu ar lein i athrawon yng Nghymru dalu eu ffi cofrestru, ar gost o £40,000 (amcan 5.1 v).

11.16 Sicrhaodd y Cadeirydd yr aelodau y byddai'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn cael gwybod am y cyfyngiadau oedd wedi cael eu rhoi ar weithgareddau'r Cyngor.

11.17 Ni chodwyd unrhyw bwyntiau eraill. Byddai'r Pwyllgor Gwaith yn penderfynu'n derfynol ar y penderfyniadau oedd yn weddill yn y cyfarfod ar 10fed Mawrth 2009.

12. Papur safbwynt CyngACC ar Gydlyniad a Chysondeb ym maes Addysg 14-19 (GTCW 02/09)

12.1 Rhoddodd y Prif Weithredwr gyflwyniad byr i'r papur hwn, a oedd wedi cael ei drafod o'r blaen gan yr aelodau yng nghyfarfodydd y Cyngor a'r Pwyllgor Polisi. Câi'r aelodau eu gwahodd, os oeddent yn gweld yn dda, i fabwysiadu'r papur safbwynt diwygiedig ac i ddechrau ymgysylltu â rhanddeiliaid ynglŷn â'i safbwynt.

12.3 Roedd y Cyngor wedi bod yn datblygu safbwynt ar broffesiynoli addysgu yn y sector Addysg Bellach, a oedd yn adeiladu ar gyflwyniad CyngACC i Adolygiad Webb o Addysg Bellach yn 2007. Roedd y papur safbwynt diwygiedig yn adlewyrchu agenda *'Gweddnewid Addysg'* Llywodraeth Cynulliad Cymru a goblygiadau'r Mesur Dysgu a Sgiliau.

12.4 Roedd y Pwyllgor Polisi wedi argymell mai'r safbwynt dilys i'r Cyngor ei gymryd oedd mewn perthynas â chysondeb o ran safonau a hawliau proffesiynol ar draws y rhyngwyneb rhwng Addysg Bellach ac ysgolion. Hefyd, ni ddylai'r Cyngor roi sylwadau ar faterion strwythurol neu drefniadol sy'n effeithio ar ysgolion, colegau a darparwyr hyfforddiant.

12.5 Roedd yr aelodau'n fodlon ar y papur safbwynt, gan fynegi'r farn ei fod yn unol â chyrff rheoleiddio eraill oedd yn goruchwylio amrywiaeth o weithwyr proffesiynol.

12.6 Ni chodwyd unrhyw bwyntiau eraill a mabwysiadwyd y safbwynt.

13. Y brif raglen Athro Siartredig – cynllun y rhaglen ddrafft a threfniadau achredu (GTCW 03/09)

13.1 Wrth gyflwyno'r papur hwn, atgoffodd Hayden Llewellyn (*Dirprwy Brif Weithredwr, Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon*) yr aelodau y dylai dyddiad dechrau bras ar gyfer y rhaglenni Athro Siartredig cyntaf fod ym mis Medi 2010 fan cynharaf.

13.2 Roedd y Cyngor wedi datblygu, fel rhan o'i Fframwaith Datblygiad Proffesiynol, raglen i athrawon yng Nghymru gael statws siartredig. Roedd y peilot ar gyfer y rhaglen hon wedi dechrau ym mis Medi 2007.

<u>Cynllun drafft y rhaglen Athro Siartredig:</u>

13.3 Gwahoddwyd yr aelodau i ystyried cynigion drafft ar gyfer cynllun y brif raglen Athro Siartredig yng Nghymru a'r canllawiau drafft i ddarparwyr ar gyflwyno rhaglenni Athro Siartredig i'r Cyngor i gael eu hachredu; roedd y ddau wedi cael eu diwygio ar ôl cael cyfraniadau gan y Pwyllgor Polisi yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr. Gan dynnu sylw yn gyntaf at y cynigion ar gyfer cynllun y rhaglen, esboniodd Hayden Llewellyn fod y cynllun drafft yn sylweddol wahanol i'r cynigion gwreiddiol ac i'r rhaglen y mae Cyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban yn ei rhedeg.

13.4 Cafwyd trafodaeth a'r prif bwyntiau oedd: roedd yr aelodau'n falch i weld bod yna bwyslais mawr ar 'Arweinyddiaeth' a 'Rheolaeth' drwyddo draw; y byddai'n gliriach defnyddio enghreifftiau gwahanol yn y modiwlau dewisol ar dudalen 4, ac y gellid cynnwys dulliau eraill o fyfyrio, a oedd yn llai trwm nag adroddiadau ysgrifenedig, yn y llwybr portffolio.

13.5 Gofynnodd un aelod hefyd am eglurhad ynglŷn ag a fyddai ysgolion yn ymwneud ag achredu, a allai fod yn feichus. Sicrhaodd Hayden Llewellyn yr aelodau, er y byddai

yna rôl i ysgolion, y byddai'n cael ei chynllunio'n ofalus ac mai'r Cyngor fyddai'n gyfrifol am hyfforddi aseswyr a chynghorwyr.

Canllawiau drafft ar achredu darparwyr y rhaglen Athro Siartredig:

13.6 Tynnodd Hayden Llewellyn sylw at y nodweddion sylfaenol y byddai'r Cyngor yn disgwyl i unrhyw raglen Athro Siartredig eu hymgorffori. Roeddent yn cynnwys: set gyffredin o fodiwlau craidd, gyda modiwlau pellach wedi'u targedu'n benodol at arferion yr ystafell ddosbarth neu arweinyddiaeth ganol; perthnasedd i waith ac arfer beunyddiol athrawon; amrywiaeth o ddulliau cyflenwi a chyfleoedd i athrawon gael credyd am Ddysgu Blaenorol Achrededig (APL) neu Ddysgu Trwy Brofiad Blaenorol Achrededig (APEL).

13.7 Cytunwyd ar ddau newid i'r testun:

- tudalen 9 – cyfnewid 'management' a 'leadership' yn 'Leading the Learning'
- tudalen 13 – symleiddio'r geiriad 'formative assessment poster and journal article'

13.8 Dywedodd y Dirprwy Gadeirydd fod asesu'n rhan bwysig iawn o'r rhaglen ac y byddai'r dulliau a oedd ar gael yn well o gael eu hystyried ymhellach.

13.9 Gofynnwyd am eglurhad ynglŷn ag a fyddai yna feini prawf penodol ar gyfer achredu APL ac APEL er mwyn sicrhau cysondeb. Byddai'r swyddogion yn sicrhau y câi hyn ei gynnwys.

13.10 Roedd yr aelodau'n fodlon ar yr adroddiad ac ni chodwyd unrhyw faterion eraill.

13.11 Byddai'r Pwyllgor Polisi yn trafod a datblygu'r brif raglen Athro Siartredig ymhellach yn ei gyfarfod ar 10fed Mawrth 2009.

14. Sefydlu – Dadansoddiad o amserau cwblhau ANG (GTCW 04/09)

14.1 Rhoddodd Hayden Llewellyn (*Dirprwy Brif Weithredwr, Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon*) gyflwyniad byr i'r adroddiad hwn, oedd yn rhoi dadansoddiad o'r amser a gymerwyd gan athrawon newydd gymhwyso i fodloni'r safon sefydlu statudol yng Nghymru.

14.2 Roedd y data a roddwyd i'r aelodau'n dadansoddi'r amser a gymerwyd gan athrawon a gafodd Statws Athro Cymwysedig (SAC) yng Nghymru rhwng 1af Awst 2004 a 31ain Gorffennaf 2005 ac a oedd felly'n bodloni'r safon sefydlu. Roedd y Cyngor mewn sefyllfa unigryw i adrodd ar y data hwn oherwydd ei waith wrth: gadarnhau dyfarniad SAC i athrawon newydd trwy ddyrannu tystysgrifau SAC; cadw Cofrestr o Athrawon Cymwysedig; a chasglu canlyniadau Sefydlu oddi wrth AALlau a dyrannu tystysgrifau i athrawon sydd wedi bodloni'r safon Sefydlu statudol.

14.3 Roedd y data'n tanlinellu'r broblem, yr oedd y Cyngor wedi tynnu sylw ati o'r blaen, fod nifer yr athrawon sy'n cael eu hyfforddi yng Nghymru bob blwyddyn yn fwy na nifer y swyddi gwag parhaol sydd ar gael. Mae'r Cyngor wedi dadlau y dylai athrawon sy'n cael eu hyfforddi yng Nghymru gael sicrwydd o flwyddyn sefydlu, fel sy'n digwydd yn yr Alban.

14.4 Tynnwyd sylw'r aelodau at ganfyddiadau cryno allweddol y dadansoddiad, sef, yn fyr:

- bod traean o athrawon yn cymryd mwy na blwyddyn i gwblhau eu Sefydlu;
- bod athrawon a gafodd eu hyfforddi ar gyfer y sector uwchradd yn cwblhau eu Sefydlu'n gynt na'r rhai a gafodd eu hyfforddi ar gyfer y sector cynradd;
- bod athrawon a gafodd TAR yn cwblhau eu sefydlu'n gynt na'r rhai a wnaeth gwrs B.Ed. neu gwrs tebyg;
- bod yna rywfaint o amrywiad yn yr amser a gymerwyd i fodloni'r safon Sefydlu gan ddibynnu ar ba bwnc yr oedd yr athro/athrawes wedi hyfforddi ynddo. Mewn perthynas â phynciau a ystyrir yn aml yn bynciau lle mae prinder, megis

Gwyddoniaeth Gyfun a Mathemateg, roedd y ganran a fodlonodd y safon Sefydlu cyn pen blwyddyn yn uchel;
- roedd yna rywfaint o amrywiad yn ôl y sefydliad; ac
- roedd yna rywfaint o amrywiad rhwng y ddau ryw. O'r grŵp a ddadansoddwyd, roedd mwy o athrawon gwryw cofrestredig wedi bodloni'r safon Sefydlu cyn pen blwyddyn nag o athrawesau.

14.5 Byddai'r data a'r dadansoddiad yn cael eu lledaenu i randdeiliaid allweddol ynghyd â datganiad i'r wasg a fyddai'n eu cyhoeddi.

14.6 Gofynnodd un aelod a fyddai camau pellach yn cael eu cymryd gyda'r data. Dywedodd Hayden Llewellyn y byddai'r swyddogion yn parhau i adolygu'r data a'r dadansoddiad bob blwyddyn a rhoi gwybod am unrhyw newidiadau i'r tueddiadau. Byddai'r data'n cael ei roi i Lywodraeth Cynulliad Cymru, sefydliadau HAGA ac AALlau, a châi datganiad i'r wasg ei ryddhau.

14.7 Croesawodd yr aelodau'r adroddiad a diolchasant i'r swyddogion am y gwaith a wnaethpwyd.

15. Tystiolaeth i Gonfensiwn Cymru Gyfan (GTCW 05/09)

15.1 Rhoddodd Karen Evans (*Rheolwr Polisi a Chynllunio*) gyflwyniad byr i'r papur hwn, oedd yn rhoi ymateb drafft i ymgynghoriad Confensiwn Cymru Gyfan ar ddatganoli a'i ddyfodol.

15.2 Roedd Confensiwn Cymru Gyfan yn ceisio ehangu'r drafodaeth ar ddatganoli a'i ddyfodol yng Nghymru ac wedi galw ar randdeiliaid allweddol i gyflwyno tystiolaeth. Cytunwyd y byddai'r Cyngor yn cyflwyno ymateb byr yn darlunio'i brofiad o'r trefniadau datganoli cyfredol fel y maent yn effeithio ar addysg.

15.3 Roedd drafft cyntaf ymateb y Cyngor i'r ymgynghoriad wedi cael ei ddosbarthu i'r aelodau ym mis Ionawr 2009 a gofynnwyd am farn yr aelodau am y drafft diwygiedig. Yn amodol ar unrhyw newidiadau, gofynnwyd i'r aelodau gymeradwyo ei gyflwyno i Gonfensiwn Cymru Gyfan.

15.4 Roedd yr aelodau'n fodlon gyda'r diwygiadau a oedd wedi cael eu gwneud i'r drafft ac ni wnaethant ragor o ddiwygiadau. Cytunodd yr aelodau fod yr ymateb yn addas i gael ei gyflwyno.

16. Unrhyw fusnes arall

16.1 Nid oedd unrhyw fusnes arall yn y Sesiwn Gyhoeddus.

16.2 Yna symudodd y Cyngor i Sesiwn Breifat.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor ar ddydd Mawrth 28ain Ebrill 2009
yng
Ngregynog, y Drenewydd